# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Iau, 3 Awst 2017.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, Gareth W Jones, Iwan Pughe Jones, Deryck Lewis, William N Owen, Gwenfair E Rhys-Davies, Geraint Wigley, a'r Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Siôn Ifans, D Gwyn Jones, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, Aeron Pughe, Huw M Williams.

**17.44. Cofnodion cyfarfod 29 Mehefin 2017.**
Eglurodd y Clerc fod sylwadau Cyng Elwyn Vaughan o dan 17.36.4. yn cyfeirio at safle Tir Heddwch yn hytrach na'r safle cyferbyn a Lluest Wen. Fel arall, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**17.45. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Darllenodd y Clerc e-bost gan Mr Steve Coventry, cwmni Amey, yn rhoi diweddariad ar y prosiect.
16.74.5. Problemau gyda gorsaf pwmpio Cwmlline. Darllenodd y Clerc e-bost gan Ms Kim Kehoe, Dwr Cymru, yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyda'r gorsaf pwmpio yng Nghwmlline.

**17.46. Cynllunio.**
Dim.

**17.47. Materion ariannol ac eitemau i'w talu.**
47.1. Cyflwynodd y Clerc manylion Cyfrifion Ariannol y blwyddyn 2015/16 ac hefyd 2016/17. Ymddiheurodd y Clerc fod wedi cymeryd mor hir i cyflwyno'r cyfrifion. Derbyniwyd y cyfrifion.
47.2. Cyflog y Clerc am Mis Gorffennaf, Mis Awst a Mis Medi. Cytunwyd taliad o £750-00.
47.3. Cadarnhaodd y Clerc fod yna £9,828-33 yn y cyfrif cyfredol ar 11 Gorffennaf 2017.

**17.48. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
48.1. Ysgol Bro Hyddgen. Rhoddodd Cyng Elwyn Vaughan diweddariad ar y cynllun i godi adeiladau newydd i Ysgol Bro Hyddgen.
48.2. Fforwm Cleifion. Rhoddodd Cyng Gwenfair Rhys-Davies diweddariad ar y cynllun I agor Canolfan Iechyd newydd ym Machynlleth o fewn safle'r Ysbyty Cymunedol. Eglurodd hefyd bod y Canolfan Dementia wedi cau yn y Drenewydd.
48.3. Ffederasiwn Ysgolion Lleol. Eglurodd Cyng Aled Griffiths fod Ysgol Glantwymyn wedi cael diwrnod mabolgampau arbennig ac yn gyffredinol mae wedi bod yn blwyddyn llwyddianus i'r ysgol.
48.4. Gwasanaeth "Broadband". Eglurodd y Clerc ei fod wedi mynychu cyfarfod yn y Drenewydd ynglyn y prosiect i ddarparu gwasanaeth "broadband" yng Nghymru a rhoddodd diweddariad ar y sefyllfa.

**17.49. Gohebiaeth.**
49.1. Llythr gan Mrs Pat Atkinson ynglyn a chyflwr y llwybr i'r Eglwys yn Darowen. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd mi fydd y Cadeirydd yn cynnal cyfarfod i edrych ar y safle gyda Cyng Iwan Pughe Jones, Cyng Geraint Wigley a'r Clerc.
49.2. Llythr gan Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Cytunwyd rhoi gwahoddiad i Mr Llywelyn ddod i Glantwymyn i siarad gyda'r Cynghorwyr ac ymestyn gwahoddiad i Chynghorwyr Cadfarch a Llanbrynmair mynychu'r cyfarfod hefyd.
49.3. E-bost gan Mr Lee Evans, Cyngor Sir Powys, gyda manylion datganiad i'r wasg ynglyn ag amserau agor y chanolfannau ailgylchu ym Mhowys.
49.4. E-bost gan Mr David Weale, Llywodraeth Cymru, ynglyn ymgynghoriad ar God Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig.

49.5. E-bost gan Ms Lauren Morrison, Llywodraeth Cymru, ynglyn a Diwygio Etholiadol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru.
49.6. E-bost gan Mr Adrian Osborne, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ynglyn a chyfle i'r cyhoedd mynegi barn ar ddarparu gwasanaethu iechyd.
49.7. E-bost gan Mr Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, ynglyn a chyfle i fynychu Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru yn Llanelwedd ar Dydd Sadwrn, 30 Medi 2017.
49.8. E-bost gan Mr Russell George AC gyda newyddion Mis Gorffenaf 2017.

Gadawodd **Cyng William N Owen** y cyfarfod.

**17.50. Unrhyw fater arall.**
50.1. Gwaith adnewyddu gwyneb ffordd Llanwrin. Eglurodd Cyng Gareth Wyn Jones fod y gwaith diweddar i adnewyddu gwyneb ffordd Llanwrin rhwng Grofft ac Aberffrydlan yn arbennig. Cytunwyd gyrru nodyn o ddiolch i'r adran addas yn y Cyngor Sir.
50.2. Goleuadau traffig ar y bont dros y rheilffordd yn Comins Coch. Eglurodd Cyng Gwenfair Rhys-Davies fod nifer o trigolion wedi mynegu pryder am y sefyllfa gyda'r goleuadau traffig ar y bont dros y rheilffordd yng Nghomins Coch. Cytunwyd ysgrifennu at yr adran priffyrdd i ofyn i'r goleuadau cael eu symud yn agosach i'r pentref.
50.3. Problemau torri gwair. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod yna nifer o phroblemau gyda'r contract i torri gwair ar ochr y ffordd o fewn y Cymuned. Cytunwyd ysgrifennu i'r Cyngor Sir ynglyn a phryderon y Cyngor.
50.4. Problem gyda dwr ar y ffordd ger y Swyddfa Bost. Eglurodd Cyng Iwan Pughe Jones fod yna problem gyda dwr yn dod allan o'r "manhole" ger y Swyddfa Bost ac yn rhedeg i lawr y ffordd. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.
50.5. Problem gyda coed isel ar ffordd Llanwrin. Eglurodd y Clerc fod Cyng William N Owen wedi gofyn iddo codi sylw problemau gyda canghenau coed yn tyfi yn isel dros ffordd Llanwrin. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 28 Medi 2017.**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Iau, 26 Hydref 2017.**